

# AMP – Porth Rheoli Penodedigion

## Rydyn ni'n uwchraddio!

Mae'r Porth Rheoli Penodedigion (AMP) yn cael ei uwchraddio. Byddwch yn dechrau gweld bod rhai sgriniau wedi newid i fformat newydd sy'n haws ei lywio ar ddyfeisiau gwahanol. Dros y misoedd nesaf, byddwch yn gweld yr olwg newydd hon mewn gwahanol rannau ar y Porth Rheoli Penodedigion.

## Adborth oddi wrth y penodedigion...

Un o'r prif ddarnau o adborth a gafwyd gan benodedigion dros y 12 mis diwethaf oedd: 'pam mae angen i ni gael enw defnyddiwr a chyfrinair gwahanol
ar gyfer pob system rydyn ni'n ei defnyddio ar gyfer CBAC?'

## Rydym wedi gwrando...

Mae'r garreg filltir gyntaf o ran trefnu enwau defnyddwyr a chyfrineiriau penodedigion wedi'i chyrraedd wrth uwchraddio'r Porth Rheoli Penodedigion (AMP). Unwaith y bydd y mudo wedi'i gwblhau, byddwch yn gallu defnyddio'r un enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer y Porth Rheoli Penodedigion â safleoedd Sharepoint CBAC.
Ond ni all hyn ddigwydd tan ar ôl i chi actifadu'r broses fudo.

## Beth mae angen i mi ei wneud?

Yn syml, mewngofnodi i'ch cyfrif ar AMP gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr presennol. Bydd hwn fel arfer yn y fformat: enwcyntaf.cyfenw

Bydd y canllaw byr hwn yn eich tywys drwy'r camau nesaf
**CLICIWCH YMA**

## Pa bryd mae angen i mi wneud hyn?

Bydd y system Porth Rheoli Penodedigion newydd ar gael i chi symud eich cyfrif o 23 Medi 2023 ymlaen.

## Ond mae gennyf gyfrif SharePoint yn barod. Ydw i'n gallu mewngofnodi i AMP gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr?

Ddim eto – mae angen i chi gwblhau'r broses fudo yn gyntaf. Byddwch chi wedyn yn gallu defnyddio'r un enw defnyddiwr ar gyfer cynadleddau SharePoint yn y dyfodol.

## Beth os ydw i'n cael problemau?

Mae'r broses fudo wedi'i chynllunio i fod mor syml â phosibl, ond pe baech chi'n cael problem, mae ein timau'n barod i'ch cefnogi drwy'r broses.

Rydym wedi datblygu rhai Cwestiynau Cyffredin a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Gellir ei gweld **YMA**


Gallwch gysylltu â'r tîm cefnogi ar:

**Angen Help?**




# Y Broses Fudo

**1** Ewch i'r sgrin mewngofnodi AMP [https://appointees.wjec.co.uk](https://appointees.wjec.co.uk)




**2** Nesaf, mewnbynnwch eich enw defnyddiwr AMP presennol (e.e. enw cyntaf, cyfenw)

Cliciwch ar 'mewngofnodi'.





**3** Byddwch chi'n gweld y dudalen fudo ar ei newydd wedd.

Nesaf, mewnbynnwch eich cyfrinair AMP presennol a chliciwch ar 'Cyflwyno'.

Cliciwch ar 'Wedi anghofio fy nghyfrinair' os nad ydych chi'n gallu cofio.

# 4

Bydd y sgrin nesaf yn cadarnhau bod eich cyfrif wedi mudo.





## Gwybodaeth bwysig

**! Bydd eich enw defnyddiwr AMP newydd (@wjec-appointees.co.uk) yn ymddangos ar y sgrin (Rhaid i chi gofio hwn!)**

**! Bydd cyfrinair dros dro newydd yn cael ei anfon atoch chi dros e-bost.**


**Nesaf, cliciwch ar 'Bwrw Ymlaen'.**




# 5

Nawr, byddwch chi'n mynd nôl i'r brif dudalen mewngofnodi – mewnbynnwch eich enw defnyddiwr @wjec-appointees.co.uk newydd yma a chliciwch ar 'Mewngofnodi'.

**AWGRYM: Wrth deipio eich enw defnyddiwr newydd, gwiriwch nad oes unrhyw fylchau ar y diwedd - tarwch dileu ar ôl '.co.uk'**




## 6

Yna, gofynnir i chi fewnbynnu eich cyfrinair dros dro eto.

**! Os yn copio a gludo - byddwch yn ofalus nad ydych yn ychwanegu/rhoi bylchau gwyn/yn llenwi bylchau naill ochr i'r cyfrinair.**


Rhowch y cyfrinair i mewn a chliciwch ar 'Mewngofnodi'




## 7

Rydych chi bron iawn yna!

Cliciwch ar 'Nesaf' i osod eich Dilyswr Aml-ffactor (DAFf)




**Bydd y canllawiau isod yn eich tywys drwy'r broses Ddilysu Aml-ffactor (DAFf) – mae gennych chi ddau ddewis.**

**Rwyf am osod y DAFf gan ddefnyddio neges destun neu linell ffôn tir**

**Cliciwch Yma**

**Rwyf am osod y DAFf gan ddefnyddio'r ap ar fy ffôn clyfar**

**Cliciwch Yma**

# Dilyswr Aml-ffactor (DAFf)
# Microsoft Authenticator App

I osod eich DAFf gan ddefnyddio'r ap Microsoft Authenticator ar eich ffôn clyfar, bydd angen i chi lawrlwytho'r ap o'r App Store/Play Store


NEU

Sganiwch y codau QR isod





## Pan fydd yr ap wedi'i lawrlwytho ar eich ffôn clyfar


## Cliciwch ar 'Next' yn eich porwr gwe




**1** Agorwch yr ap Microsoft Authenticator ar eich ffôn a thapiwch ar y botwm '+' ar frig ochr dde'r sgrin





**2** Dewiswch 'Work or school account' a thapiwch 'Scan QR code'. Dylai hyn agor eich camera





**3** Os nad yw eich camera'n agor, ewch i osodiadau'r ap i alluogi'r camera.
**Cliciwch ar 'Next' ar eich porwr**





**4**





**5**







Nawr sganiwch y cod QR yn eich porwr gan ddefnyddio eich camera a chliciwch ar 'Next'.
Bydd eich cyfrif @wjec-appointees.co.uk yn cael ei ychwanegu'n awtomatig at yr ap.

**6**




**7**





Byddwch chi nawr yn cael eich ysgogi i nodi'r cod sydd ar sgrin eich porwr yn yr ap ar eich ffôn.

Mewnbynnwch y rhif ar yr ap a thapiwch 'Yes'


Cliciwch ar 'Next' a 'Done' ar y sgriniau dilynol yn eich porwr

**8**




Nesaf, bydd angen i chi ddilysu pwy ydych chi.

Cliciwch ar 'Approve a request on my Microsoft Authenticator app'





Nodwch y rhif yn yr ap a thapiwch 'Yes'




**Yn olaf, mae angen i chi newid eich cyfrinair dros dro i rywbeth cofiadwy.**

**(Isafswm o 8 Cymeriad, yn cynnwys. priflythrennau, llythrennau bach, symbol a rhif)**

**Cliciwch ar 'Mewngofnodi'.**




**AWGRYM: Cafodd eich cyfrinair dros dro ei anfon atoch dros e-bost wrth fudo am y tro cyntaf – edrychwch yn eich mewnflwch/sothach am neges gan applications.support@wjec.co.uk**


**Rydych chi bellach wedi gosod eich trefn Ddilysu Aml-ffactor (DaFf) ar yr ap.**

# Dilyswr Aml-ffactor (DAFf)
## Neges testun / Galwad Ffôn

Derbyniwyd eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair. Nawr byddwch chi'n gweld y sgrin sydd i'w gweld isod, lle bydd angen i chi osod eich trefn Ddilysu aml-ffactor (MFA).

I osod eich DAFf gan ddefnyddio neges destun neu linell ffôn tir,


Cliciwch ar 'I want to set up a different method'




Nesaf bydd cwymplen yn cael ei chyflwyno i chi

O'r dewisiadau yn y gwymplen, dewiswch "Phone" fel sydd i'w weld isod.


Cliciwch ar "Confirm" i barhau.



Newidiwch y cod ardal i'r Deyrnas Unedig (+44)


Mewnbynnwch eich rhif ffôn symudol, heb y '0' ar y cychwyn, fel sydd i'w weld yn y sgrinlun.
Dewiswch "Text me a Code"

D.S. – os nad ydych chi'n berchen ar ffôn symudol, neu os nad oes gwasanaeth yn eich ardal i chi dderbyn neges destun, gallwch nodi eich rhif ffôn cartref a dewis "Call Me" yn lle – yna byddwch chi'n derbyn galwad wedi'i hawtomeiddio yn rhoi'r cod i chi.





Byddwch chi nawr yn derbyn neges destun ar eich ffôn symudol gan Microsoft gyda chod 6 digid.

Mewnbynnwch y cod ar y sgrin a chliciwch ar "Next" i barhau.




Os ydych chi wedi mewnbynnu'r cod yn gywir, byddwch chi'n derbyn yr un neges ag a welir isod.

Cliciwch ar 'Next' i barhau.





Rydych chi bellach wedi gosod eich

Dilysu Aml-ffactor (MFA) yn

llwyddiannus ar eich ffôn.

Cliciwch ar "Done" i orffen.




Nesaf, mae angen i chi gadarnhau eich hunaniaeth.

Gallwch chi ddewis naill ai:

**Neges destun**

NEU

**Alwad Ffôn**




**Neges testun**

Byddwch nawr yn derbyn cod i'ch ffôn symudol gan Microsoft gyda chod 6 digid.

Mewnbynnwch y cod ar y sgrin a chliciwch "Nesaf" i barhau.

**Galwad Ffôn**

Byddwch nawr yn derbyn galwad ffôn.


Atebwch yr alwad a gwasgwch yr allwedd # i barhau.

**Yn olaf, mae angen i chi newid eich cyfrinair dros dro i rywbeth cofiadwy.**

**(Isafswm o 8 Cymeriad, yn cynnwys. priflythrennau, llythrennau bach, symbol a rhif)**

**Cliciwch ar 'Mewngofnodi'.**

**AWGRYM: Cafodd eich cyfrinair dros dro ei e-bostio atoch pan wnaethoch chi fudo am y tro cyntaf - gwiriwch eich mewnflwch/sothach am e-bost oddi wrth applications.support@wjec.co.uk**




**Rydych chi bellach wedi gosod eich Dilysu Aml-ffactor (DaFf) yn llwyddiannus gyda'ch ffôn.**

# Mudo AMP
# Cwestiynau Cyffredin

### Nid yw fy enw defnyddiwr yn cael ei adnabod - ni allaf fewngofnodi

Gwiriwch ddwywaith nad oes gofod ar ddechrau neu ar ddiwedd yr enw defnyddiwr trwy ddileu unrhyw fylchau gwyn.

Hefyd, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r terfyniad enw defnyddiwr mudol newydd:

**@wjec-appointees.co.uk**

### Nid yw'r cyfrinair dros dro yn gweithio - ni allaf fewngofnodi

Gwiriwch ddwywaith nad oes lle ar ddechrau nac ar ddiwedd y cyfrinair.

Ceisiwch deipio'r cyfrinair i'r maes yn uniongyrchol yn hytrach na'i gopïo a'i gludo.

### A yw fy nghais wedi cael ei gymeradwyo os wyf yn cael fy annog i fudo?

Mae'r system Penodedigion newydd wedi mynd yn fyw felly bydd angen i chi fudo'ch cyfrif i gynnal mynediad iddo.

Bydd eich cais yn dal i fod yno ac yn cael ei asesu maes o law.

### Rydw i wedi anghofio fy enw defnyddiwr AMP (gwreiddiol/wedi mudo)

Ewch i'r dudalen mewngofnodi AMP https://appointees.wjec.co.uk

- cliciwch ar 'Wedi Anghofio fy Enw Defnyddiwr'
- yna gofynnir i chi roi eich cyfeiriad e-bost i mewn
- bydd enw defnyddiwr yn cael ei anfon atoch dros e-bost.

Os nad ydych yn derbyn e-bost o fewn 30 munud, yna edrychwch yn eich ffolderi sothach.

## Rydw i wedi anghofio fy nghyfrinair AMP gwreiddiol

Ewch i'r dudalen mewngofnodi AMP https://appointees.wjec.co.uk rhowch eich enw defnyddiwr AMP gwreiddiol i mewn

- cliciwch ar 'Wedi Anghofio fy Nghyfrinair'
- yna gofynnir i chi roi eich enw defnyddiwr i mewn eto
- anfonir e-bost at y cyfeiriad sy'n gysylltiedig â'ch enw defnyddiwr, yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ailosod eich cyfrinair.

Os nad ydych yn derbyn e-bost o fewn 30 munud, yna edrychwch yn eich ffolderi sothach.
Dim ond am 24 awr mae'r cyswllt e-bost yn weithredol.

## Rydw i wedi anghofio fy nghyfrinair AMP wedi'i fudo

Ewch i'r dudalen mewngofnodi AMP https://appointees.wjec.co.uk rhowch yr enw defnyddiwr AMP wedi'i fudo

- clciiwch ar 'Wedi Anghofio fy Nghyfrinair'
- rhowch eich enw defnyddiwr a'r nodau i mewn ar sgrin
- anfonir e-bost atoch at y cyfeiriad sy'n gysylltiedig â'ch enw defnyddiwr

Os nad ydych yn derbyn e-bost o fewn 30 munud, yna edrychwch yn eich ffolderi sothach.

## A fydd rhaid i mi roi fy manylion personol i mewn eto?

Na fydd, mudo eich cyfrif yw bwriad y broses hon ac mae'r holl fanylion blaenorol rydych chi wedi'u rhoi i mewn yn y fan honno.
Ond, cofiwch ddefnyddio'r cyfle hwn i fynd drwy unrhyw fanylion a'u diweddaru lle bo angen, er enghraifft diweddaru eich cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chanolfan addysgu.

## Mae rhywfaint o fy ngwybodaeth ar goll - beth ddylwn i ei wneud nesaf?

Efallai y bydd rhai penodedigion, yn enwedig y rhai sydd wedi gweithio gyda ni o'r blaen, yn gweld rhai bylchau yn y manylion sydd gennym yn y system hon. Dylech ddefnyddio'r cyfle hwn i adolygu a diweddaru eich manylion ac i ychwanegu unrhyw wybodaeth sydd ar goll.

## Beth yw Dilysu Aml-ffactor (DAFf)?

Dull diogelu yw DAFf rydyn ni'n ei ddefnyddio i ddiogelu ein systemau TG a'ch gwybodaeth chi. Mae'n gofyn i chi ddarparu dau ddarn o dystiolaeth - cyfrinair a chod - i ddilysu eich hunaniaeth er mwyn i chi allu cael mynediad i'r Porth Rheoli Penodedigion.

Os ydych chi wedi gweithio gyda ni yn y flwyddyn aeth heibio, yna bydd gennych brofiad o ddefnyddio DAFf i gael mynediad i'n llwyfannau hyfforddi ar SharePoint.

## Beth yw manteision defnyddio DAFf?

✓ cynnydd mewn diogelwch
✓ llai o risg o gyfrineiriau wedi'u cyfaddawdu neu gyfrineiriau gwan
✓ atal dwyn hunaniaeth

## Sut ydw i'n gosod DAFf?

Mae tair prif ffordd o osod DAFf.

1. Defnyddio Ap ar ffôn clyfar
2. Cofrestru rhif ffôn symudol
3. Cofrestru rhif ffôn llinell tir

Y dull dilysu diofyn yw defnyddio'r ap Microsoft Authenticator rhad ac am ddim.
Os yw'n well gennych ddefnyddio dull gwahanol neu os nad oes gennych ffôn clyfar neu dabled, gweler isod.

## Nid oes gennyf ffôn clyfar - beth ddylwn i ei wneud?

Gallwch osod Dilysu Aml-ffactor (Multi Factor Authentication) heb orfod defnyddio ffôn clyfar. Gallwch wneud hyn drwy
clicio "Rydw i am osod dull gwahanol". Bydd y dull hwn yn gadael i chi dderbyn neges destun neu alwad ffôn yn rhoi cod dilysu i chi i'w ddefnyddio fel eich dull Dilysu Aml-ffactor.
Mae ein canllaw i'w gael **YMA**.

### Rydw i wedi newid fy ffôn symudol ers i mi ddefnyddio AMP a SharePoint ddiwethaf, beth dylwn i ei wneud?

Anfonwch e-bost at y tîm cefnogi appointeesupport@wjec.co.uk - yn rhoi gwybod i ni am hyn. Gallwn ni wedyn ailosod eich Dilysu Aml-ffactor.

Dylech gynnwys eich enw a chadarnhau'r cyfeiriad e-bost AMP sy'n gysylltiedig.

### Rydw i wedi dileu'r ap Authenticator, beth dylwn i ei wneud?

Anfonwch e-bost at y tîm cefnogi appointeesupport@wjec.co.uk - yn rhoi gwybod i ni am hyn. Gallwn ni wedyn ailosod eich Dilysu Aml-ffactor.

Dylech gynnwys eich enw a chadarnhau'r cyfeiriad e-bost AMP sy'n gysylltiedig.